Prosiect X

# Adeiladu Wembley



DRAKE

Steve Parker

# Adeiladu Wembley

## Cynnwys



| | |
|---|---|
| Y gêm olaf | 2 |
| Dechreuad newydd | 4 |
| Bwrw i lawr | 6 |
| Tyllau mawr | 8 |
| Dechrau adeiladu | 10 |
| Cymryd siâp | 12 |
| Bwa Wembley | 14 |
| To symudol | 16 |
| Cwbl ddiogel | 18 |
| Bron â gorffen | 20 |
| Ar agor o'r diwedd | 22 |
| Geirfa/Mynegai | 24 |


Steve Parker

DRAKE

# Y gêm olaf

Mae'n fis Hydref 2000. Mae Lloegr yn chwarae pêl-droed yn erbyn yr Almaen yn **Stadiwm** Wembley yn Llundain. Mae'r stadiwm yn llawn o gefnogwyr.




Roedd gêm olaf Lloegr yn hen stadiwm Wembley yn gêm ragbrofol ar gyfer Cwpan y Byd 2002. Y sgôr derfynol oedd 1 - 0 i'r Almaen.

Mae Wembley wedi gweld llawer achlysur pwysig ond nawr mae'r stadiwm yn rhy hen. Mae'r seddau'n gyfyng. Mae rhai seddau mor bell o'r maes, fedr y cefnogwyr ddim gweld y chwarae. Mae ciwiau am bron bopeth.



**LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY**

- **2000**
- 2001
- 2002
- 2003
- 2004
- 2005
- 2006
- 2007

Mae'n amser adeiladu Stadiwm Wembley o'r newydd. Un fwy, a gwell!


# Dechreuad newydd

Mae cynlluniau ar gyfer stadiwm newydd Wembley ar ddechrau. Mae'n rhaid i'r cynllunwyr benderfynu sut fydd y stadiwm yn edrych.




Mae cynlluniau'r stadiwm newydd yn cael eu trafod.

Mae'r cynlluniau am y stadiwm newydd yn cael eu gwneud ar gyfrifiaduron a thudalennau mawr o bapur. Mae pob rhan yn cael ei gynnwys, o fwa anferth y to i ddolenni'r drysau.



LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

2000

**2001**

**2002**

2003

2004

2005

2006

2007




Mae pobl yn dod i weld model o'r stadiwm newydd. Rhaid i bawb gytuno mai dyma'r **cynllun** gorau.

# Bwrw i lawr




Daw'r gweithwyr i mewn. Dechreuant fwrw'r hen stadiwm i lawr. Rhaid iddynt weithio'n ofalus a diogel. Fe gymerith fisoedd lawer. Roedd gan yr hen Wembley ddau dŵr uchel. Roeddynt wedi sefyll am 81 o flynyddoedd ond nawr maent yn cael eu bwrw i lawr.

Mae'r safle'n glir. Gall y gwaith ar y stadiwm newydd ddechrau. Mae pyst yn nodi safleoedd y waliau, y tyrau a'r maes.




LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

2000
2001
2002
**2003**
2004
2005
2006
2007

# Tyllau mawr

Mae gwaith ar y stadiwm newydd wedi dechrau ond mae'n mynd i lawr, dim i fyny! Yn gyntaf, rhaid cloddio tyllau mawr.






Ystafelloedd a meysydd parcio fydd y tyllau mawr yma.

Mae cloddwyr yn gwneud tyllau hir o'r enw ffosydd. Maent ar gyfer **ceblau** trydan a phibellau dŵr.




LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY


- 2000
- 2001
- 2002
- **2003**
- 2004
- 2005
- 2006
- 2007

I'r cefnogwyr gael gweld y maes yn well, fe fydd bedwar metr yn is na'r hen un. Mae llawer o bridd i'w symud i ffwrdd.

# Dechrau adeiladu




**1** Mae wagenni'n cyrraedd gyda'r defnyddiau adeiladu.



**2** Mae driliau anferth yn gwneud tyllau yn y ddaear ar gyfer rhodenni neu byst.




**3** Mae wagenni'n arllwys concrid o amgylch y pyst. Mae'r concrid yn caledu. Hwn fydd **sail** gref y stadiwm newydd.



4

Mae concrid yn cael ei arllwys o amgylch gwaelod **trawstiau** mawr dur. Maent yn ffurfio sgerbwd y stadiwm newydd.

5

Mae tâp rhesog yn amgylchynu'r rhannau peryglus i atal damweiniau.

6

Mae llawer o graeniau tal yn codi'r rhannau i'w lle. Mae'n rhaid i'r gyrwyr ddefnyddio radio i siarad â'r bobl islaw.

I fod yn ddiogel, mae'r bobl ar y safle yn gorfod gwisgo hetiau caled a dillad llachar.

LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

2000

2001

2002

2003

2004


2005

2006

2007


# Cymryd siâp

Mae'r stadiwm yn dechrau cymryd siâp. Bydd y distiau tal a'r trawstiau cryf yn dal y seddau. Mae'r safle yn brysur iawn nawr. Mae yna fwy na 2000 o weithwyr.



Cysylltir y trawstiau drwy eu cynhesu â fflam arbennig. Maen nhw'n cynhesu ac yn toddi i'w gilydd. Mae'r metel yn oeri ac yn caledu. Weldio ydy'r gair am hyn.

Mae trydanwyr yn dechrau torri a chysylltu'r gwifrau. I gadw'n ddiogel rhaid gwneud yn siwr fod y trydan i ffwrdd cyn dechrau gweithio.



LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

2000

2001

2002

**2003**


2004

2005

2006


2007

Mae bricwyr yn adeiladu'r waliau o flociau mawr wedi eu cysylltu â **morter**.



# Bwa Wembley


Mae'r ddau dŵr wedi cael eu bwrw i lawr.
Bydd gan y stadiwm newydd fwa dur anferth
sy'n uwch na'r tyrau.





Mae 41 o gylchoedd yn y bwa.
Maent yn ffurfio twnnel sy'n ddigon o faint i drên fynd drwyddo!

Mae rhannau'r bwa yn cael eu codi gan graen anferth a'u cysylltu â'i gilydd.



LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

2000
2001
2002
2003
**2004**
2005
2006
2007

# To symudol

Bydd stadiwm newydd Wembley fel powlen anferth. Bydd yna 90,000 o seddau o dan y to anferth. Bydd golygfa wych gan bawb!





Mae trawstiau enfawr ar ogwydd yn cael eu rhoi yn eu lle i ddal y grisiau a'r seddau.

Dydy'r to ddim yn gorchuddio'r maes. Mae angen heulwen a glaw ar y borfa i dyfu.



LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

- 2000
- 2001
- 2002
- 2003
- 2004
- **2005**
- 2006
- 2007




Mae rhannau o'r to'n llithro 'nôl. Mae'n gadael mwy o heulwen a glaw i mewn.

# Cwbl ddiogel

Rhaid i stadiwm newydd Wembley fod yn:

- gyfforddus
- ddiogel
- hawdd i'w glanhau.

Rhaid hefyd arbed adnoddau megis ynni a dŵr.



Mae digon o le i goesau pobl rhwng y seddau.




Mae camerâu'n dangos beth sy'n digwydd ym mhob rhan o'r stadiwm.



Mae yna chwistrellwyr dŵr yn y nenfwd i ddiffodd tân yn gyflym.




Mae'r llifoleuadau yn fwy llachar na'r hen rai ond maent yn defnyddio llai o drydan.

LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY


- 2000
- 2001
- 2002
- 2003
- 2004
- **2005**
- 2006
- 2007


# Bron â gorffen

Mae'r stadiwm newydd ar fin cael ei hagor. Mae'n amser gweld sut mae'n gweithio. Mae yna ddiwrnod ymarfer pan all pobl leol ddod i gael cipolwg. Dyma'r cwestiynau maent yn gofyn:



**C:** Oes digon o fynedfeydd?
**A:** Oes! Rhaid i bobl fedru mynd i mewn ac allan yn gyflym. Ddylai ddim fod rhesi hir.






**Q:** All pawb weld?
**A:** Gallant! Mae dwy sgrîn enfawr yn dangos ailchwarae, y sgôr ac unrhyw wybodaeth arall. Mae pob sgrîn cymaint â 600 set deledu.

**Q:** Fydd yna ddigon a fwyd?
**A:** Bydd! Mae cefnogwyr llwglyd eisiau bwyta hanner amser. Mae'r gegin fwyaf yr un maint ag un rhan o dair o faes pêl-droed!



**Q:** Oes digon o dai bach?
**A:** Oes! Mae 2600 o dai bach yn y stadiwm newydd. Mae hynny'n fwy nag mewn unrhyw adeilad arall yn y byd.

LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

- 2000
- 2001
- 2002
- 2003
- 2004
- 2005
- **2006**
- 2007

# Ar agor o'r diwedd

Mae wedi cymryd saith mlynedd i adeiladu stadiwm newydd Wembley. O'r diwedd gall tîm pêl-droed Lloegr chwarae gartref eto.

Mae gêm gyntaf Lloegr yn erbyn pencampwyr y byd, Brasil. Mae'r timau'n chwarae'n galed a'r sgôr yw 1 - 1.



Gwir enillydd y diwrnod ydy stadiwm newydd Wembley. Mae popeth yn gweithio'n dda. Mae pawb yn cytuno bod y stadiwm yn llwyddiant.

Nid dim ond ar gyfer pêl-droed mae Stadiwm Wembley yn cael ei defnyddio. Mae croeso i rygbi a chwaraeon eraill yma. Mae'n cael ei defnyddio hefyd gan rai o sêr pop a bandiau mwya'r byd.

LLINELL AMSER ADEILADU WEMBLEY

- 2000
- 2001
- 2002
- 2003
- 2004
- 2005
- 2006
- **2007**



Mae **atyniad** newydd yn Llundain. Mae bwa enfawr Wembley yn edrych yn rhyfeddol yn y nos. Mae wedi ei oleuo gan 250 o oleuadau arbed ynni!

# Geirfa

| | |
|---|---|
| **ailgylchu** | defnyddio rhywbeth eto yn lle ei daflu |
| **atyniad** | man neu adeilad pwysig |
| **bwa** | rhan o adeilad sy'n crymu |
| **cebl** | gwifren neu raff gref, drwchus |
| **craen** | peiriant sy'n codi pethau trwm |
| **cynllunio** | tynnu llun neu siâp rhywbeth |
| **gwaelod** | rhan isaf rhywbeth |
| **morter** | cymysgfa o dywod a dŵr a ddefnyddir i ludio briciau at ei gilydd |
| **pyst** | darn hir, tenau o fetal a forthwylir i'r ddaear i gynnal adeilad |
| **rhagbrofol** | rhaid ennill gêmau rhagbrofol cyn mynd ymlaen i'r rownd nesaf |
| **stadiwm** | lle mawr lle gellir gwylio sbort a chwaraeon |
| **trawst** | darn mawr, hir o fetal |

# Cynnwys


| | | | |
|---|---|---|---|
| bwa | 5, 14–15, 23 | safle | 7, 12 |
| craeniau | 11, 15 | seddau | 12, 16 |
| cynlluniau | 4, 5 | to | 9, 13, 19 |
| diogel | 11, 13, 18 | trawstiau | 11, 12, 16 |
| driliau | 10 | trydan | 9, 13, 19 |
| maes | 3, 7, 9, 17, 22 | | |